

Polisi Tolledau Ysgol

Ysgol Llanbedrog



Dyddiad Cymeradwyo: 11/2/20

Dyddiad Adolygu: Bob 3 blynedd

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd



Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: Alaw Ceris

Dyddiad: 19/12/22

1. Cyflwyniad

Mae'r Polisi hwn ar gael i'r gymuned ysgol gyfan. Mae wedi ei gymeradwyo gan staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol, ac mae ar gael yng nghylchlythyr ar y wefan ac ym mhrosiectws yr ysgol. Lluniwyd y polisi wrth ystyried y ddogfen Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru Ionawr 2012.

2. Nodau

- Galluogi disgyblion i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.
- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol gyfan i holl gymuned yr ysgol yn unol â Chynllun Cydraddoldeb yr ysgol.

3. Rhesymeg: Pam ein bod yn ysgrifennu'r polisi hwn?

- Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu.
- Rydym yn gwerthfawrogi ac yn parchu ein staff a disgyblion ac rydym am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.

4. Amcanion: Beth ydym am ei gyflawni?

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan y gymuned ysgol gyfan – rheolwyr yr ysgol, staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.
- Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddisgyblion drwy gydol y diwrnod ysgol. Rydym yn cydnabod bod anghenion toiled disgyblion yn amrywio'n fawr ac nad ydyn nhw'n cydymffurfio ag amserlenni caeth. Rydym yn cydnabod bod rhai disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i'r toiled dim ond pan na fydd pobl eraill o amgylch a byddwn yn caniatáu iddyn nhw adael y dosbarth i ddefnyddio'r toiled a dychwelyd heb wneud sylwadau negyddol
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr gan gynnwys staff a disgyblion ag anableddau, anghenion arbennig, a sicrhau bod y goleuadau, gosodiadau a ffitiadau yn briodol a digonol yn unol â Chynllun Cydraddoldeb yr ysgol.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion unigolion o'r holl nodweddion gwarchoddedig yn unol â Chynllun Cydraddoldeb yr ysgol. Sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.
- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr o ran yr hyn y gellir ei weld a'i glywed, gan sicrhau bod cyflenwad wrth gefn o gloeon ar gyfer drysau'r ciwbiclau
- Sicrhau drwy gydol yr amser fod gan bob ardal doiledau, gyflenwad a gynhelir yn briodol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.
- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ym mhob un o giwbiclau'r merched (ar gyfer merched wyth oed a hŷn) a'u bod yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a darparu peiriannau cynhyrchion misglwyf ym mlociau toiledau'r merched a thoiledau'r staff benywaidd.

- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwyllo ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Gosod cyflenwadau dŵr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol, ac nid mewn ardaloedd toiled.
- Goruchwyllo'r toiledau yn ystod amserau egwyl ac amser cinio, os bydd disgyblion yn credu bod angen gwneud hynny. Os bydd disgyblion yn ymgymryd â'r rôl hon, byddwn yn eu hyfforddi a'u goruchwyllo er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol ac nad ydyn nhw'n rhwystro cyddisgyblion rhag defnyddio'r toiledau pan fo angen iddyn nhw wneud hynny.
- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r disgyblion ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio ag unrhyw broblemau a amlygir gan y disgyblion yn brydlon.
- Mynd ati'n weithredol i ymgynghori â'r disgyblion a'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r toiledau (drwy gyngor yr ysgol neu sefydlu gweithgor).
- Annog disgyblion i barchu'r toiledau a'i gilydd (drwy gyngor yr ysgol, mewn gwersi ABCCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth) ac annog disgyblion i sefydlu Cod Ymddygiad Disgyblion ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.
- Darparu ardaloedd cymdeithasol dan do er mwyn atal defnyddio'r toiledau i gymdeithasu
- Gweithredu a chynnal adolygiadau blynyddol o'r polisi i fonitro os yw'n cael ei ddilyn ac os yw'n parhau yn berthnasol.
- Arddangos posteri ar hylendid dwylo ym mhob toiled yr ysgol.

5. Nodiadau

- Lluniwyd y Polisi hwn mewn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff yr ysgol, llywodraethwyr a'r nyrs ysgol.
- Mae'r ysgol yn cefnogi'r nod o ddarparu mynediad agored i gyfleusterau toiled glân, preifat a diogel, sydd mewn cyflwr da, drwy gydol y diwrnod ysgol.